Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dinas Brân
# Ffordd Dinbren
# Llangollen
# LL20 8TG

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Dinas Bran

Ysgol gyfun gymysg ddwyieithog 11 i 18 oed yw Ysgol Dinas Brân. Mae wedi'i lleoli yn nhref Llangollen ac yn gwasanaethu'r dref a'r ardaloedd cyfagos. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod lleol Sir Ddinbych ond daw tua 70% o ddisgyblion o ranbarthau o fewn awdurdod lleol Wrecsam a daw ychydig o ddisgyblion o ddau awdurdod lleol arall cyfagos. Mae 1,062 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 135 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae hyn yn uwch nag ydoedd adeg yr arolygiad diwethaf, pan oedd 984 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 210 yn y chweched dosbarth.

Mae tua 12.5% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%, ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae tua 6.6% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron pob un o'r disgyblion yn wyn Prydeinig ac mae 1.2% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 3.0%. Ar hyn o bryd, mae tua 26% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22.9%, ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae gan ychydig dros 1% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig; mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.4%.

Mae'r ysgol hon yn ysgol arloesi Cwricwlwm Cymru ar gyfer y celfyddydau mynegiannol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2018. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dau ddirprwy bennaeth, un pennaeth cynorthwyol a phennaeth cynorthwyol dros dro.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn Ysgol Dinas Brân yn rhoi pwyslais sylweddol ar feithrin perthynas gadarnhaol ac ymgysylltiedig gyda'u disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hynod barchus at staff ac ymwelwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn falch o'u hysgol a'i hethos cynnes a chyfeillgar. Maent yn cymryd rhan yn dda yn y gweithgareddau buddiol niferus a gynhelir y tu allan i wersi.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae arweinwyr wedi gweithio'n briodol i sicrhau deilliannau cryf yn y mwyafrif o ddangosyddion perfformiad a gwella presenoldeb ysgol gyfan. Fodd bynnag, ni fu digon o ffocws ar wella ansawdd yr addysgu a'r asesu yn ystod y cyfnod hwn. Nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion, yn enwedig medrau ysgrifennu a meddwl, yn ogystal â chyfleoedd i weithio'n annibynnol, wedi eu datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent mewn gwersi.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn medrau ac ar gyfer y disgyblion mwy abl

A2 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A3 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau, yn enwedig ysgrifennu, meddwl ac mewn Cymraeg mamiaith

A4 Gwella ansawdd y cynllunio strategol ar gyfer hunanarfarnu a gwella'r ysgol

A5 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr ymweliad arolygu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol ym mwyafrif y gwersi ac yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda. Mewn ychydig o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Maent yn gweithio'n dda yn annibynnol ac yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'r medrau a'r wybodaeth y maent wedi eu caffael wrth gwblhau gwaith newydd. Fodd bynnag, mewn gwersi eraill, nid yw disgyblion yn datblygu medrau a gwybodaeth bynciol yn ddigon da. Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus a rhugl mewn gwersi a gydag oedolion a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Mae llawer ohonynt yn mynegi meddyliau a syniadau'n glir ac yn gydlynus ac mae lleiafrif ohonynt yn cyfleu safbwyntiau a barn aeddfed. Yn gyffredinol, mae gan lawer o ddisgyblion amgyffrediad priodol o derminoleg sy'n benodol i bwnc, er enghraifft pan fyddant yn trafod priodoleddau gwahanol fetelau a'u defnydd mewn peirianneg. Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth. Pan fydd cyfleoedd yn codi, mae disgyblion yn cymryd rhan yn dda mewn parau a grwpiau bach. Er enghraifft, mae disgyblion mewn gwersi ieithoedd tramor modern yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn deialogau byr yn Sbaeneg ac yn Ffrangeg. Mewn gwersi celf, mae disgyblion yn dadansoddi ac yn arfarnu ansawdd artistig gwaith arlunwyr lleol o Gymru mewn grwpiau bach. Er bod llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar athrawon a'u cyfoedion, nid yw ychydig ohonynt yn dangos lefel addas o ddealltwriaeth o'r pwnc, ac maent yn cynnig atebion byr, annatblygedig pan gânt eu holi.

Mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar fedrau darllen cadarn. Maent yn dod o hyd i ffeithiau a gwybodaeth o destunau yn effeithiol. Mewn ychydig o bynciau, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn ddigon da o ganlyniad i gyfleoedd cyfyngedig. Mewn lleiafrif o bynciau, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu gallu i ddehongli a dadansoddi testunau. Er enghraifft, mewn hanes, gall llawer o ddisgyblion gydbwyso a gwerthuso ffeithiau a barn mewn testunau sy'n cynnig safbwyntiau gwrthwynebol ar yr un mater, fel achosion tymor hir y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gydlynus ac yn defnyddio ystod addas o eirfa sy'n benodol i bwnc. Maent yn trefnu eu gwaith yn briodol mewn paragraffau. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn cynhyrchu darnau estynedig o ansawdd da. At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu gyda chywirdeb rhesymol ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o ramadeg. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg rheolaidd, gan gynnwys camsillafu geirfa gyffredin a sylfaenol. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn trefnu eu hysgrifennu yn rhesymegol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau rhifedd yn dda mewn pynciau heblaw mathemateg. Er enghraifft, maent yn creu graffiau llinell cywir mewn daearyddiaeth i ddangos cyflymdra llif mewn afon ac yn cyfrifo foltedd yn gywir ar draws bylbiau mewn cylchedau cyfochrog a chylchedau cyfres mewn gwyddoniaeth.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sylfaenol ar draws y cwricwlwm.  Yn gyffredinol, mae disgyblion yn defnyddio ystod rhy gyfyng o raglenni digidol wrth gwblhau tasgau, ac yn aml mae hyn wedi'i gyfyngu i PowerPoint, dogfennau Word a thaenlenni excel.

Yn y gwersi prin lle mae cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau disgyblion, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd gwerthfawr.  Er enghraifft, mae disgyblion yn archwilio'r rhesymau dros anghysondebau wrth fesur cyfraddau anweddiad mewn cemeg.  Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn gwneud datblygiad cryf yn eu gallu i feddwl yn annibynnol.  Er enghraifft, mewn hanes, mae llawer o ddisgyblion yn trafod ac yn esbonio enghreifftiau o newid a pharhad yn natur troseddau er 1500 yn ddeallus.  Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfle cyfyngedig ar draws mwyafrif y pynciau, nid yw disgyblion yn datblygu medrau meddwl a medrau dysgu'n annibynnol yn ddigon da.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau creadigol cryf mewn ychydig o bynciau.  Er enghraifft, mewn drama, mae disgyblion yn actio golygfeydd o sioe gerdd Blood Brothers yn llwyddiannus, ac mewn Saesneg, maent yn ysgrifennu'n ddychmygus am fywyd fel plentyn yn ystod oes Shakespeare.

Mae perfformiad ar drothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi bod uwchlaw'r perfformiad mewn ysgolion tebyg am ddwy o'r pedair blynedd ddiwethaf.  Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod yn gryf mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf ac mae'n cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg yn ystod y cyfnod hwn.

Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum cymhwyster TGAU neu fwy neu gyfwerth ar raddau A*/A wedi gostwng dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac yn 2018, mae gryn dipyn yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Bu perfformiad y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gryf dros y pedair blynedd ddiwethaf.  Mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad allweddol.

Ym mhob un o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad merched uwchlaw perfformiad merched mewn ysgolion tebyg yn y mwyafrif o'r dangosyddion allweddol.  Er bod perfformiad bechgyn yn amrywiol dros gyfnod, mae'n cymharu'n dda â bechgyn mewn ysgolion tebyg mewn tua hanner y dangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg mamiaith islaw'r gyfran mewn ysgolion tebyg ar gyfer tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.  Mae cyfran y disgyblion sy'n cael eu cofrestru ar gyfer Cymraeg ail iaith TGAU wedi cynyddu'n gyson er 2015.  Mae perfformiad disgyblion sy'n ennill cymhwyster lefel 2 yn cymharu'n dda â chyfartaledd Cymru.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Yn y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad cyffredinol disgyblion yn y chweched dosbarth islaw perfformiad mewn ysgolion eraill tebyg.  Er 2015, mae cyfran y

disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A*-C a pherfformiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach islaw'r gyfran mewn ysgolion tebyg. Bu cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 3 islaw cyfartaledd Cymru ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A*-A yn amrywiol ond uwchlaw cyfartaledd Cymru mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac maent yn gyfeillgar a chroesawgar. Mae bron pob un o'r disgyblion yn foesgar a chwrtais â staff, cyfoedion ac ymwelwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac maent yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt unrhyw anawsterau.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu cymell yn dda ac mae llawer ohonynt yn dangos gwydnwch a chadernid cryf mewn gwersi, hyd yn oed pan na fydd tasgau efallai'n ddigon heriol ar eu cyfer. Maent yn gweithio'n effeithiol mewn parau ac mewn grwpiau ac yn gwrando'n barchus ar gyfraniadau eu cyfoedion. Maent yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r berthynas weithio gadarnhaol sydd ganddynt â'u hathrawon. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu, maent yn siarad gormod mewn gwersi ac yn colli diddordeb yn eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau cymdeithasol trwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol. Mae'r ffordd y mae disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus yn nodwedd gref. Er enghraifft, mae grŵp o ddisgyblion yn helpu trefnu gŵyl i ddathlu ieithoedd lleiafrifol. Hefyd, mae disgyblion yn codi symiau mawr o arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol fel Tŷ Gobaith ac Ambiwlans Awyr Cymru.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn fuddiol mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol fel gweithdai'r celfyddydau mynegiannol, y clwb llyfrau a'r clwb gwyddbwyll. Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y sioe dalent flynyddol boblogaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o sut i gadw'n iach trwy ddiet ac ymarfer corff. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwd mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon a ffitrwydd, fel canŵio ar Gamlas Llangollen a dringo creigiau.

Mae ychydig o ddisgyblion yn dylanwadu'n gadarnhaol ar waith yr ysgol trwy gymryd rhan mewn gweithgorau fel Grŵp Gweithredu ar Faeth yr Ysgol a'r grŵp Eco. Er enghraifft, maent wedi ymestyn yr amrywiaeth o ran y bwyd iach sydd ar gael yn y ffreutur ac wedi ymgyrchu i leihau'r defnydd o blastigion untro. Mae gwaith y cyngor ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar ychydig o feysydd gwaith yr ysgol, fel cymryd rhan yn y cyfweliad ar gyfer swyddi uwch arweinwyr. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae dylanwad y cyngor ysgol ar agweddau pwysig eraill fel addysgu a dysgu yn gyfyngedig.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'u disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon wybodaeth

bynciol gref; maent yn cyfathrebu'n glir ac yn fodelau iaith da. Yn gyffredinol, mae llawer o athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda.

Mewn ychydig o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion. Maent yn gosod tasgau heriol ac mae ganddynt amcanion gwersi pwrpasol. Yn y gwersi hyn, mae rhediad cyflym i'r dysgu ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu medrau meddwl ac wrth weithio'n annibynnol.

Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn cynllunio tasgau dechreuol addas sy'n galluogi disgyblion i alw gwaith blaenorol i gof yn briodol. Gwnânt ddefnydd effeithiol o adnoddau pwrpasol i'w cynorthwyo â'u cyflwyno. Mewn tua hanner y gwersi, mae tasgau wedi'u cynllunio'n briodol i ennyn diddordeb disgyblion a'u galluogi i wneud cynnydd priodol. Fodd bynnag, mewn gwersi eraill, nid yw athrawon yn bodloni anghenion pob un o'r disgyblion yn ddigon da gan nad ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigonol i allu na photensial disgyblion wrth gynllunio tasgau. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgwyliadau athrawon o ddisgyblion yn ddigon uchel. Yn y gwersi hyn, nid ydynt yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol, yn enwedig medrau ysgrifennu, gwrando a meddwl estynedig. Yn ychwanegol, nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Mae tasgau'n parhau'n rhy hir neu nid ydynt yn ddigon heriol ac mae athrawon yn rhoi cyflwyniad rhy hir. Mewn ychydig o achosion, mae rhediad y wers yn eithriadol o araf.

Mae gormod o amrywiad yn ansawdd adborth ac asesiadau athrawon. Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau addas i wirio bod disgyblion yn gallu galw dysgu i gof. Maent yn rhoi adborth llafar priodol i alluogi disgyblion i wneud cynnydd. Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn gofyn cwestiynau agored perthnasol ac estynedig, sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn galluogi datblygiad priodol eu medrau meddwl. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn defnyddio disgyblion mwy abl yn dda i roi enghreifftiau o atebion. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o achosion, nid yw athrawon yn archwilio ac yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion â holi medrus. Yn hytrach, maent yn tueddu i ateb eu cwestiynau eu hunain. Mae hyn yn cyfyngu ar annibyniaeth disgyblion a datblygiad eu meddwl.

Mae ansawdd yr adborth a'r asesu yn llyfrau disgyblion yn rhy amrywiol. Mewn llawer o bynciau, nid yw adborth gan athrawon yn ddigon pwrpasol i alluogi disgyblion i wneud newidiadau a gwelliannau yn eu gwaith. Ychydig o athrawon yn unig sy'n sicrhau bod disgyblion yn cywiro eu gwaith neu'n ymateb i adborth.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn llwyddo i fodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 4, mae amrywiaeth werthfawr o gyrsiau TGAU, yn ogystal â phynciau galwedigaethol fel peirianneg, arlwyo a datblygiad y plentyn. Mae'r ysgol yn addasu ei chwricwlwm yn briodol i fodloni anghenion disgyblion sy'n agored i niwed. Nodwedd benodol o gwricwlwm cyfnod allweddol 4 yw ei fod yn galluogi'r holl ddisgyblion i ennill cymhwyster buddiol sy'n gysylltiedig ag addysg gorfforol.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n greadigol i ehangu profiadau disgyblion yn y celfyddydau mynegiannol. Ceir cydweithio effeithiol rhwng yr adrannau cerddoriaeth, drama a chelf wrth gynllunio newidiadau i'r cwricwlwm ar gyfer y dyfodol. Mae'r cydweithio hwn yn rhoi mewnwelediad clir i ddisgyblion ar lwybrau gyrfa posibl sy'n gysylltiedig â'r meysydd astudio hyn.

Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae nodwedd bwysig o ddatblygiad diwylliannol a phersonol disgyblion wedi'i chysylltu'n effeithiol ag ymglymiad cynhwysfawr disgyblion yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Mae mwyafrif yr adrannau yn cefnogi datblygiad y Cwricwlwm Cymreig yn briodol. Mae ymweliadau addysgol buddiol, cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol a chymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.

Mae dull systematig o gynllunio ysgol gyfan yn sicrhau bod y ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn cael ei chydlynu'n briodol. Yn y mwyafrif o bynciau, mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn. Fodd bynnag, mewn ychydig o bynciau, nid yw'r ffocws ar ddatblygu medrau darllen disgyblion yn ddigon cryf. Yn ychwanegol, mae gormod o amrywiad o ran pa mor effeithiol y mae pynciau'n datblygu cywirdeb disgyblion a'u gallu i ysgrifennu'n estynedig. Rhoddir cymorth priodol i ddisgyblion â medrau darllen a rhif gwannach. Mae cynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo'r disgyblion hyn yn dda.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae darpariaeth briodol i ddisgyblion astudio amrywiaeth o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae amrywiaeth y dewisiadau yn lleihau wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

Mae pynciau unigol yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddefnyddio TGCh mewn gwahanol gyd-destunau. Fodd bynnag, megis dechrau y mae cynllunio'r ysgol ar gyfer rhoi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad ei nodweddu gan arwyddair yr ysgol, sef 'llwyddiant trwy ymdrech'. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cymuned hynod gynhwysol a chefnogol sy'n parchu amrywiaeth. Caiff hyn effaith fuddiol ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnwys ystod eang o destunau addas. Mae'r rhain yn cynnwys dinasyddiaeth, medrau cymdeithasol a phersonol, addysg rhyw a pherthnasoedd iach a gwrth-radicaleiddio.

Mae rheolwyr dysgu, gyda chymorth y rheolwyr dysgu cynorthwyol a gweddill y tîm cynhwysiant, yn gweithio'n frwdfrydig gyda'i gilydd ac yn cynnig cymorth ac arweiniad cryf i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol gyda llawer o asiantaethau cymorth allanol i ychwanegu at ddarpariaeth yr ysgol a rhoi cymorth buddiol i ddisgyblion sy'n agored i niwed. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella gwydnwch a lles y disgyblion hyn. Mae'r ysgol yn monitro ymddygiad disgyblion yn drylwyr ac mae ganddi system briodol i wobrwyo a chosbi. Mae hyn wedi sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb yn rheolaidd ac yn drylwyr ac yn cynllunio strategaethau effeithiol i gynorthwyo disgyblion â phresenoldeb isel.

Mae gan yr ysgol system olrhain ddefnyddiol i fonitro cynnydd academaidd disgyblion. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i ddarparu cymorth targedig addas ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gwneud defnydd cynhwysfawr o'r data hwn i ddarparu cymorth addas ar

gyfer pob grŵp o ddysgwyr. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno system newydd sy'n galluogi arweinwyr i nodi gwendidau disgyblion unigol mewn pynciau penodol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y gwaith hwn.

Mae darpariaeth fuddiol i adnabod a chynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. At ei gilydd, mae cynlluniau addysgol unigol yn rhoi gwybodaeth berthnasol i staff am anghenion unigol disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cynhyrchiol o wybodaeth am ddisgyblion newydd i gynllunio cymorth addas pan fyddant yn trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau rheolaidd i rieni am gynnydd eu plentyn. Fodd bynnag, mae gwybodaeth yn yr adroddiadau hyn yn ddryslyd ac nid yw adroddiadau pwnc bob amser yn cynnwys meysydd pwysig i'w gwella sy'n benodol i bwnc.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Cefnogir hyn trwy ddarparu ystod eang, werthfawr a phoblogaidd o weithgareddau allgyrsiol sydd hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd, er enghraifft ystod amrywiol y sesiynau chwaraeon a ffitrwydd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i ddarparu arweiniad a chyngor buddiol a diduedd ar ddewisiadau pwnc a dewisiadau gyrfa yn y dyfodol. Mae hyn yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol a'u paratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd oedolyn.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r sesiynau boreol 'yn barod i ddysgu' i ddatblygu gwerthoedd cymdeithasol, personol a moesol disgyblion. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r trefniadau i hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion.

At ei gilydd, mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu plant yn briodol ac mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i ymateb i unrhyw bryderon am eu lles. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r tîm arolygu at ychydig o faterion iechyd a diogelwch, gan gynnwys problemau rheoli traffig.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn meddu ar synnwyr clir o ymrwymiad i'r ysgol ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Maent yn cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer gwella perfformiad disgyblion mewn arholiadau yn briodol ac yn sicrhau ymddygiad da ac agweddau cadarnhaol. Mae arweinwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau yn y mwyafrif o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4, perfformiad cryf mewn llawer o bynciau yn y chweched dosbarth a phresenoldeb gwell. Hefyd, mae arweinwyr wedi sicrhau agweddau cadarnhaol disgyblion at ddysgu, a gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol. Fodd bynnag, mae arweinwyr wedi cael effaith annigonol ar ychydig o feysydd pwysig o waith yr ysgol, fel ansawdd yr addysgu, a chyrhaeddiad disgyblion mwy abl.

Mae rolau a chyfrifoldebau arweinwyr ar bob lefel yn glir ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud eu gwaith yn gymwys. Mae trefniadau rheoli llinell a rheoli perfformiad yn briodol ac mae arweinwyr wedi cymryd camau addas i fynd i'r afael â thanberfformio.

Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o waith yr ysgol ac yn cydnabod y prif gryfderau a'r meysydd y mae angen eu gwella. Mae eu rolau fel

llywodraethwyr cyswllt yn eu galluogi i gael cipolwg defnyddiol ar waith adrannau unigol. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cynnig lefel addas o her i arweinwyr yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi nodi'n gywir wendidau ym mhrosesau'r ysgol ar gyfer arfarnu perfformiad a sicrhau gwelliant. Yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno newidiadau i'r prosesau hyn, ond mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y diwygiadau hyn.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o'r rhan fwyaf o gryfderau a gwendidau'r ysgol. At ei gilydd, maent yn dadansoddi data a gwybodaeth o arholiadau yn dda i arfarnu perfformiad disgyblion. Yn ychwanegol, maent yn casglu ystod addas o dystiolaeth o weithgareddau fel arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion ac adborth anffurfiol gan ddisgyblion a rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi gwneud yn siŵr bod ansawdd arsylwadau gwersi yn cael ei sicrhau, ac mae hyn yn golygu nad yw barnau am ansawdd yr addysgu yn gywir. Hefyd, nid yw adborth o'r arsylwadau hyn yn rhoi darlun digon llawn o gynnydd disgyblion. Yn gyffredinol, mae craffu ar waith disgyblion yn canolbwyntio gormod ar gydymffurfio â pholisi'r ysgol. O ganlyniad, nid oes digon o ffocws ar y cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi. Mae'r diffygion hyn yn golygu nad oes gan arweinwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn defnyddio eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol mewn arholiadau yn dda i osod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae cynlluniau yn cynnwys targedau uchelgeisiol a mesuradwy priodol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio'r ysgol i wella agweddau ar addysgu wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Nid yw cofnodion cyfarfodydd ysgol gyfan ac adrannol yn rhoi sylw priodol i arfarnu a thrafod ansawdd yr addysgu. Yn ychwanegol, er bod y rhan fwyaf o arweinwyr yn rhannu eu harfer yn yr ysgol i wella addysgu, ychydig ohonynt yn unig sydd wedi arsylwi gwersi pobl eraill. Yn gyffredinol, nid yw staff yn ymweld ag ysgolion eraill yn ddigon rheolaidd i gasglu syniadau newydd a gwella arfer.

Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar lefel unigol yn cysylltu'n briodol ag amcanion rheoli perfformiad a blaenoriaethau ysgol gyfan. At ei gilydd, mae hyfforddiant ar gyfer pob un o'r staff yn cwmpasu meysydd addas. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynllunio'r hyfforddiant hwn yn strategol. Nid yw'r ysgol yn nodi calendr hyfforddiant yn seiliedig ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn ei hunanarfarniad.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn dda. Maent yn monitro gwariant yn ofalus ac yn sicrhau ei fod yn gweddu'n dda i anghenion a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn cynnwys adnoddau da ac mae arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau o'i safle a'i hadeiladau. Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion. Mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda ac mae eu presenoldeb wedi gwella dros gyfnod o gymharu â phresenoldeb disgyblion tebyg mewn ysgolion tebyg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/01/2019